Cymuned Bach!

Gathering, growing, going

Diocese of Swansea & Brecon

DUW YN GALW MOSES

Gan ddefnyddio'r Beibl, darllenwch stori Duw yn galw Moses sydd i'w gweld yn llyfr Exodus pennod 3.
Os nad oes gennych fynediad at Feibl neu os ydych am weld fersiwn arall o'r stori, rydym wedi postio dolen isod i fersiwn sydd ar gael ar YouTube.

YouTube

https://youtu.be/vwXZjZhbYss

DADBACIO

Yn ein stori yr wythnos hon rydyn ni'n clywed sut y cafodd Moses ei alw gan Dduw i ryddhau'r Israeliaid o'r Aifft. Erbyn hyn nid yw Moses bellach yn byw yn yr Aifft ei hun. Magwyd Moses yn yr Aifft ond ni allai ddal i weld ei bobl yn cael eu brifo, aeth yn grac a lladdwyd milwr o'r Aifft ac felly bu'n rhaid iddo redeg i ffwrdd o'i gartref er mwyn aros yn fyw.

Pan mae Duw yn galw Moses yn ein stori heddiw mae Moses wedi bod yn byw yn Midian ers 40 mlynedd. Nid oedd hyn o becso Duw. Roedd yn dal i alw ar Moses i fynd i'r Aifft i ryddhau pobl Dduw. Dychrynodd Moses, nid oedd yn credu bod Duw wedi galw'r person iawn, ond nid yw Duw byth yn gwneud camgymeriadau. Er fod Moses yn dweud nad ef yw'r person iawn ar gyfer y swydd, mae Duw yn dweud wrtho ei fod ac yn rhoi'r holl offer y bydd eu hangen arno i fod yn llwyddiannus.

Mae'r un peth yn wir i ni. Weithiau mae Duw yn ein galw i wneud pethau nad ydyn ni'n credu y gallwn ni, ac efallai weithiau fel Moses rydyn ni'n ceisio mynnu nad ni yw'r person iawn ar gyfer y swydd. Mae Duw bob amser yn iawn a bydd bob amser yn sicrhau bod gennym bopeth sydd ei angen arnom i lwyddo.

Efallai y cawn ein galw i wneud rhywbeth bach fel siarad â'n ffrindiau am ein ffydd neu gall fod yn rhywbeth llawer mwy. Beth bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cofio bod Duw eisiau inni lwyddo a bydd yn rhoi popeth sydd ei angen arnom i sicrhau ein bod yn gallu.

CERDDED FFORDD DUW

Mae'r rhai sy'n gwneud beth mae'n ddweud,ac yn rhoi eu hunain yn llwyr iddowedi eu bendithio'n fawr! Dŷn nhw'n gwneud dim drwg,ond ymddwyn fel mae e eisiau.

Salmau 119:2-3

Pan rydyn ni'n byw ein bywydau mewn ffordd sy'n plesio Duw, pan rydyn ni'n dilyn ei orchmynion ac yn ei gynnwys yn ein bywyd, yna rydyn ni'n cerdded ffordd Duw.

Dyma grefft y gallwch chi ei gwneud i'ch atgoffa i gerdded ffordd Duw.

Cymerwch ddarn o bapur ac ysgrifennwch ar y top "Annwyl Arglwydd, helpwch ni i gerdded eich ffordd".

Yna os ydych chi am ddilyn ffordd Duw paentiwch eich traed a sefyll ar y dudalen. Gallwch wneud hyn gydag un troed neu'r ddwy. Llofnodwch eich enw ar y papur hefyd fel bod eich paentiad yn dod yn gytundeb i geisio cerdded ffordd Duw.

CERDDORIAETH

CANEUON SAESNEG

AS FOR ME

YANCY NOT NANCY

https://youtu.be/wIiFQAGWy5I

GOD HAS A PLAN

ALL STAR KIDS CLUB

https://youtu.be/xBum_vntNlg



Across

3. Pwy wnaeth ymddangos i Moses o canol y llwyn?
4. Beth oedd yn rhyfeddol am y llwyn?
7. Mae Duw yn dweud wrth Moses ei fod yn mynd i dod a'i bobl i le mae'r tir yn llifo a beth?
8. Hyd yn oed fod y llwyn ar dan wnaeth e ddim _____?
10. O ba lyfr o'r Beibl ydi'r stori o Moses a'r berth yn llosgi?
11. Pwy wnaeth Duw dweud wrth Moses i ymddangos o blaen?

Down

1. Roedd yr Israeliaid yn cael ei ymdrin fel?
2. Beth wnaeth Duw dweud wrth Moses i tynnu i ffwrdd achos roedd e ar tir sanctaidd?
5. Pwy ydi tad-yn-nghyfriath Moses
6. Ble oedd Moses fod i ddod a pobl Duw?
9. Beth ydi enw'r mynydd Duw?

CREU EICH DELWEDD EICH HUN O LWYN SY'N LLOSGI

Bydd Angen:

- Cerdyn
- Pensil
- Paint - brown, gwyrdd, coch, melyn a oren
- Brwsh Paint
- Gwellt
- Dŵr
- Cwpan

Cyfarwyddiadau:

1. Dechreuwch trwy dynnu llun o amgylch eich llaw a'ch braich i greu coeden.
2. Paentiwch y tu mewn i'ch lun gyda phaent brown a gadewch iddo sychu.
3. Cymerwch frwsh paent glân a chreu dail trwy dabio blew eich brwsh paent i lawr yn ysgafn a gadael iddo sychu.
4. Unwaith y bydd eich coeden yn sych, Cymerwch ychydig o baent melyn ac ychydig bach o ddŵr a'i gymysgu gyda'i gilydd - mae angen i'ch paent fod yn ddigon rhedeg i ddiferu'r brwsh paent.
5. Rhowch ychydig o ddiferion o amgylch eich coeden a chwythu'r paent gyda'r gwellt, bydd hyn yn rhoi "fflamau" i chi
6. Ailadroddwch y broses gyda phaent oren a choch nes eich bod yn hapus gyda'r canlyniad a'u bod ac yna gadewch iddo sychu.

YR OFFER I WNEUD GWAITH DUW

MAE GWAHANOL BOBL YN DEFNYDDIO GWAHANOL OFFER YN DIBYNNU AR EU SWYDD

Rydyn ni'r un peth!

Pan fydd Duw yn gofyn inni wneud rhywbeth drosto, bydd bob amser yn rhoi'r offer cywir inni ar gyfer y swydd.

Os ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich galw gan Dduw i wneud rhywbeth yn ystod yr amser hwn beth am feddwl pa offer y bydd eu hangen arnoch chi, neu os nad ydych chi'n siŵr a yw Duw yn eich galw chi yna beth am feddwl pa offer y gallai fod eu hangen ar rywun arall ar gyfer y swydd er enghraifft eich offeiriad lleol.

Lluniadu, Ysgrifennu neu Greu mewn unrhyw ffordd rydych chi'n ei hoffi.



OS HOFFECH RANNU UNRHYW BETH YR YDYCH WEDI'I GREU, MAE CROESO I CHI LWYTHO I FYNY I FACEBOOK NEU TWITTER GAN DDEFNYDDIO'R DUDALEN O'CH SWYDDOG YPT LLEOL OND GWNEWCH YN SIŴR BOD Y LLUN YN UN O'CH GWAITH, NID CHI. DIOLCH